Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Tŷ Gwyn
# Cefn Lane
# Glyn-coch
# Pontypridd
# RhCT
# CF37 3BP

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2013**

## Cyd-destun

Uned cyfeirio disgyblion (UCD) a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yw Canolfan Addysg Tŷ Gwyn. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Gall yr UCD ddarparu ar gyfer hyd at 64 o ddisgyblion.

Mae gan bob un o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig, ac mae gan naw disgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ferched yn yr UCD. Daw pob un o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith, er bod rhai ohonynt wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol. Mae gan oddeutu 61% o'r holl ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae tua 6% o'r disgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r UCD yn darparu addysg dros y tymor hir ar gyfer hyd at 48 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Nid yw'r disgyblion hyn wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd lleol. Yn ychwanegol, mae 16 o leoedd ar gael yng nghyfnod allweddol 3, ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r UCD am hyd at dridiau'r wythnos ac yn treulio deuddydd yr wythnos yn eu hysgolion prif ffrwd. Mae staff o Dŷ Gwyn yn cefnogi'r lleoliadau ar y cyd hyn.

Mae darpariaeth cyfnod allweddol 4 yn cynnig cymwysterau TGAU, lefel mynediad a chymwysterau galwedigaethol. Lle bo'n briodol, mae'r UCD yn trefnu darpariaeth i ddisgyblion hŷn fynychu lleoliadau coleg.

Arolygwyd yr UCD ddiwethaf yn Nhachwedd 2007. Ers hynny, mae'r awdurdod lleol wedi aildrefnu ei ddarpariaeth UCD, ac nid yw UCD Tŷ Gwyn yn darparu addysg ar gyfer disgyblion oedran cynradd mwyach. Mae pennaeth y ganolfan, a benodwyd ym Medi 2010, a dau bennaeth cynorthwyol.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn wedi gwella'r cwricwlwm sydd ar gael i ddisgyblion ac mae ganddi systemau effeithiol ar waith i gynorthwyo disgyblion i wella'u hymddygiad. Fodd bynnag, barnwyd bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae addysgu'n cynnwys meysydd pwysig i'w gwella;
- ar y cyfan, cyfyngedig fu effaith y strategaethau i wella presenoldeb ers yr arolygiad diwethaf;
- mae'r defnydd o ddata asesu yn anghyson; ac
- nid yw cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn rhoi digon o ffocws i dargedu eu hanghenion dysgu.

## Rhagolygon gwella

Mae gan Uned Cyfeirio Disgyblion Tŷ Gwyn ystod o systemau priodol ar waith, er enghraifft i olrhain ymddygiad a rheoli perfformiad. Fodd bynnag, bernir bod rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- nid yw arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn systematig;
- nid yw targedau gwella ysgol gyfan yn nodi deilliannau disgwyliedig sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu; ac
- nid yw adroddiadau i'r pwyllgor rheoli yn rhoi llawer o ddadansoddiad o berfformiad yr UCD i'r pwyllgor rheoli. Felly, ni all aelodau herio'r UCD ar ei heffeithiolrwydd.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd a chysondeb addysgu ac asesu ar draws yr UCD

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau bod dull cyson a systematig o wella medrau llythrennedd a rhifedd pob disgybl

A4 Sicrhau data gwaelodlin priodol ar bob disgyblion y gellir mesur cynnydd yn ei erbyn

A5 Sicrhau bod cynllunio gwelliant yn cael ei gryfhau trwy ganolbwyntio'n glir ar effaith ddisgwyliedig strategaethau ar addysgu a dysgu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwella'r UCD hon yn sylweddol. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae gan ddisgyblion yn yr UCD ystod o anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Gydag ychydig iawn o eithriadau, bydd disgyblion wedi cael anawsterau yn rheoli eu hymddygiad yn eu hysgolion blaenorol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cael trafferth uniaethu'n dda â phobl eraill ac ymddiried mewn oedolion. Dros gyfnod, gyda chymorth staff, mae ymddygiad disgyblion yn gwella. Maent yn magu hyder ac yn dechrau ymfalchïo yn eu gwaith a'u cyflawniadau.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyrsiau sydd wedi'u hachredu'n allanol. Maent wedi astudio cymwysterau Lefel Mynediad a TGAU, lle bo'n briodol. Mae rhai disgyblion yn ennill cymwysterau allanol yn gynnar. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 9 a 10 wedi ennill cymwysterau lefel mynediad mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac addysg gorfforol (A. Gorff.). Yn fwy diweddar, mae disgyblion wedi elwa ar gwricwlwm ehangach. Mae cyrsiau galwedigaethol yn cynnwys cymwysterau BTEC mewn Chwaraeon, Sgiliau Gwaith a Gwyddoniaeth. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn astudio cymwysterau eraill, er enghraifft Cymorth Cyntaf Brys a Hylendid Bwyd Sylfaenol.

Mae disgyblion sy'n mynychu darpariaeth ran-amser yr UCD yn gwneud cynnydd da. Mae staff yn eu cynorthwyo'n dda. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a ailintegreiddiwyd i ysgol prif ffrwd yn llwyddiannus. Roedd canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg amser llawn, hyfforddiant neu gyflogaeth ym Medi 2013, sef 38%, yn isel o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 85%. Cofnodwyd bod pump o'r wyth disgybl a adawodd yn 2013 yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).

Yn 2012, roedd naw o ymadawyr Blwyddyn 11, 11% ohonynt yn NACH ac aeth 88% ohonynt ymlaen i addysg amser llawn, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Pan mae safonau'n dda mewn gwersi, mae disgyblion yn dangos diddordeb, maent yn frwdfrydig ac yn ymateb yn dda i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau. Mae disgyblion yn dangos lefelau priodol o ganolbwyntio. Mewn gwers wyddoniaeth, er enghraifft, dangosodd disgyblion ymwybyddiaeth dda o ddiogelwch a dealltwriaeth gynyddol o adweithedd gwahanol fetelau. Mae disgyblion hŷn yn arbennig yn cymryd gofal wrth gyflwyno'u gwaith.

Fodd bynnag, pan fernir bod safonau'n ddigonol neu'n waeth, nid yw disgyblion yn glir ynglŷn â'r amcanion dysgu, maent yn rhoi atebion cyfyngedig i gwestiynau ac nid ydynt yn ymgymryd ag asesu eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, mae gwaith mewn llyfrau yn anghyflawn neu ar goll yn achos rhai ohonynt.

Mae medrau disgyblion mewn llythrennedd yn datblygu. Mae'r rhai a gafodd eu cynnwys mewn arbrawf diweddar â chymorth targedig yn dangos cynnydd da yn eu medrau darllen.

Caiff disgyblion eu hannog i ddarllen llyfrau sy'n briodol i lefel eu gallu a'u diddordeb. Caiff cynnydd disgyblion mewn rhifedd ei rwystro gan mai dim ond yn ddiweddar y cynhaliwyd asesiadau gwaelodlin ac nid oes cymorth targedig ar waith eto.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol wrth ennill medrau mewn Cymraeg ail iaith.

**Lles: Digonol**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn Nhŷ Gwyn ac yn dweud bod staff yn eu parchu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn uniaethu'n dda â'u hathrawon.

Mae disgyblion yn deall am fanteision ffordd iach o fyw ac maent yn dysgu gwneud dewisiadau gwybodus am ddiet. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dewis amlapiadau iach a ffrwythau amser cinio ac amser egwyl. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod yr UCD yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn yr UCD. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn chwaraeon fel pêl-droed, rygbi, hoci a jwdo. Mae'r UCD wedi sefydlu timau chwaraeon ac mae disgyblion yn cystadlu'n rheolaidd yn erbyn ysgolion eraill. Mae'r gweithgareddau'n helpu disgyblion i aros mewn cysylltiad â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Mae rhai disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar gyfer clybiau yn eu hamser eu hunain gyda chymorth gan yr athro addysg gorfforol.

Mae pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer ymddygiad a gallant arfarnu eu hymddygiad yn onest, pan gânt eu hannog i wneud hynny.

Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol o'r UCD yn y pum mlynedd diwethaf. Mae amlder gwaharddiadau cyfnod penodol wedi aros yn gymharol gyson tra bod nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd am gyfnod penodol wedi lleihau i ffigurau sengl.

Mae presenoldeb disgyblion, sef 75%, yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae presenoldeb rhai disgyblion unigol wedi gwella. Nid yw'r UCD yn casglu data presenoldeb yn rheolaidd cyn lleoli disgyblion. O ganlyniad, ni all rheolwyr fesur gwelliant yn gyffredinol.

Mae rôl y cyngor ysgol yn parhau i ddatblygu. Nid yw trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i weddill y disgyblion ac annog cyfoedion i gymryd mwy o gyfrifoldeb wedi cael eu rhoi ar waith eto. Fodd bynnag, mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu at benodi aelodau o staff. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco wedi gweithio'n dda ar brosiect eco. Fe wnaethant ofyn am gyngor gan fusnes lleol a chreu gardd fechan yn yr UCD.

Mae medrau meddwl disgyblion wedi'u cysylltu â myfyrdodau ar ymddygiad yn gyffredinol, ac nid ydynt yn ymestyn yn ddigon llawn i feysydd y cwricwlwm. Mae'r UCD wedi ailgynllunio'i chynlluniau gwersi yn ddiweddar i gynnwys datblygu annibyniaeth disgyblion mewn medrau dysgu a meddwl. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith hyn ar ddisgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r UCD yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Caiff holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol eu haddysgu yng nghyfnod allweddol 3 ac eithrio Cymraeg ac ieithoedd modern tramor. Mae ystod briodol o gymwysterau Lefel Mynediad a Lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra'n briodol i unigolion allu dilyn cyrsiau galwedigaethol neu lefel uwch oddi ar y safle. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn datblygu'r medrau Cymraeg ar gyfer y nifer fach iawn o ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i drefnu i ymateb i anghenion disgyblion unigol. Er enghraifft, mae athrawon, yn hytrach na disgyblion, yn symud rhwng ystafelloedd dosbarth. Caiff y pynciau mwy ymarferol, fel chwaraeon, eu haddysgu yn ystod y prynhawn. Mae staff yn darparu gweithgareddau ysgogol amser egwyl fel TGCh, tennis bwrdd a phêl-droed.

Mae'r UCD yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd ar draws pynciau a thrwy ymyriadau targedig. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ar hyn o bryd.

Mae'r UCD yn rhagweithiol wrth gynllunio i gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd (FfLlRh). Mae staff yn deall y fframwaith llythrennedd a rhifedd ac wedi nodi ble nad ydynt yn hyderus i gyflwyno medrau penodol. Mae'r system cynllunio gwersi wythnosol electronig newydd yn nodi a choladu'r modd y caiff medrau ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu cyflwyno ar draws pynciau. Gallai hyn fod yn offeryn effeithiol iawn, ond mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar ansawdd yr addysgu a safonau disgyblion.

Mae'r UCD yn darparu cymorth ychwanegol effeithiol i alluogi disgyblion i fynd yn ôl i ysgol prif ffrwd. Yn 2012-2013, dychwelodd naw disgybl i'w hysgolion prif ffrwd.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion baratoi ar gyfer byd gwaith trwy Sgiliau Gwaith BTEC a gwaith galwedigaethol mewn adeiladu a chyrsiau eraill.

Mae ansawdd ac amseroldeb y data a drosglwyddir o ysgolion prif ffrwd yn rhy anghyson. O ganlyniad, ni all yr UCD bob amser deilwra darpariaeth yn gyflym i fodloni anghenion disgyblion.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mae ymddygiad cadarnhaol yn treiddio trwy'r UCD. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer ymddygiad ac maent yn adolygu'r rhain yn rheolaidd gyda disgyblion i'w helpu i wella. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cyfleu targedau a disgwyliadau yn glir mewn perthynas â dysgu i ddisgyblion.

Barnwyd bod ychydig dros hanner yr addysgu yn ddigonol neu'n anfoddhaol. Yn y dosbarthiadau hyn, mae disgwyliadau o ran cyflawniad academaidd disgyblion yn annigonol. Nid yw gwaith yn ddigon heriol i fodloni anghenion pob disgybl. Hefyd, mae diffyg cyflymder ac mae athrawon yn defnyddio gormod o daflenni gwaith. Mae rhai athrawon yn rhoi gormod o gyfarwyddiadau ac yn codi lefelau eu llais.

Ar draws yr UCD, mae gwybodaeth bynciol athrawon yn amrywiol. Mewn lleiafrif o wersi, caiff y dasg ei hesbonio'n wael. Nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod y disgyblion yn deall.

Nid yw dulliau addysgu yn gyson briodol ar gyfer anghenion pob un o'r disgyblion, yn enwedig y rhai ag angen dysgu ychwanegol canfyddadwy.

Pan fydd yr addysgu'n effeithiol, mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae cynorthwywyr addysgu yn ymwybodol o amcanion dysgu ac maent yn creu perthynas werthfawr gyda disgyblion. Mae dulliau addysgu llwyddiannus yn cynnwys holi effeithiol i hyrwyddo trafodaeth a strategaethau priodol i ymgysylltu â'r holl ddysgwyr. Caiff diddordeb disgyblion ei annog trwy amrywiaeth o ffynonellau. Mae hyn yn creu amgylchedd dysgu sy'n ysgogi disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb.

Mae gwersi da yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, collwyd gormod o gyfleoedd i ddatblygu medrau meddwl.

Pan fydd marcio yn gyflawn a rhoddir adborth llafar, mae disgyblion yn deall sut gallant wella. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn anghyson ar draws yr UCD. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn deall beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae gan yr UCD ystod eang o ddata asesu, sy'n cael ei rannu gydag athrawon. Mae lleiafrif o staff yn defnyddio'r data'n dda ac yn cynllunio'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd systematig o ddata i lywio cynllunio wedi'i ddatblygu ddigon ac nid oes gan yr UCD ddull cydlynus ar gyfer safoni gwaith disgyblion.

Nid yw athrawon yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain neu berfformiad eu cyfoedion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth yr UCD ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, gan gynnwys addysg rhyw, yn datblygu lles disgyblion yn effeithiol. Mae cyfleodd niferus i ddatblygu lles corfforol ac mae'r UCD yn rhagweithiol o ran cysylltu disgyblion â chlybiau chwaraeon lleol.

Mae'r UCD yn cynorthwyo disgyblion yn dda i wella eu hymddygiad a'u hunanymwybyddiaeth. Mae cynlluniau ymddygiad unigol yn briodol ac yn seiliedig ar asesiadau risg ymddygiad ac adborth defnyddiol gan bob aelod o staff. Caiff targedau eu trafod gyda disgyblion ym mhob gwers ac mae'r wybodaeth hon yn llywio adolygiadau cynnydd. Mae'r ddarpariaeth anogaeth ym Mlwyddyn 7 yn datblygu hunan-barch a medrau siarad disgyblion yn dda.

Mae trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Caiff damweiniau, ymyriadau corfforol a'r defnydd o dynnu allan o wersi eu cofnodi, eu hadrodd a'u dadansoddi'n drylwyr. Mae hyn yn llywio targedau ymddygiad disgyblion a rheoli perfformiad staff. Trwy'r dadfriffio dyddiol, mae pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth ar y cyd o unrhyw bryderon ynghylch diogelu neu ymddygiad.

Caiff datganiadau o angen addysgol arbennig a CAUau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae CAUau yn canolbwyntio ar waith ymyrraeth llythrennedd yn unig ac nid ydynt yn dal anghenion rhifedd neu anghenion dysgu eraill.

Mae cymorth targedig i ddisgyblion unigol fel cwnsela, cymorth camddefnyddio sylweddau neu therapi lleferydd ac iaith. Mae staff yn rhoi cymorth bugeiliol da a chyngor da ar yrfaoedd trwy sesiynau llais y disgybl a gynhelir bob hanner tymor.

Trwy wersi, mae staff yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o fwyta'n iach. Mae prydau ysgol yn cynnwys cydbwysedd maethol ac mae'r UCD wedi gwella ystod yr opsiynau iach sydd ar gael yn y siop fwyd a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Fodd bynnag, mae'r siop fwyd yn parhau i werthu creision a siocled. O ganlyniad, nid yw'r UCD yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd cynhwysol, sy'n hyrwyddo a datblygu agweddau cadarnhaol disgyblion. Mae pob disgybl yn dysgu trin pawb yn gyfartal, heb unrhyw ragfarn na gwahaniaethu.

Gwnaed gwelliannau i adeiladau'r UCD, fel y labordy gwyddoniaeth a'r gampfa a osodwyd yn ddiweddar. Mae dysgu disgyblion yn elwa ar y rhain yn sylweddol.

Mae'r ysgol wedi gwella adnoddau cyfrifiadurol yn ddiweddar, er nad yw disgyblion yn defnyddio'r peiriannau ym mhob dosbarth yn aml.

Mae arddangosiadau yn gwella'r amgylchedd dysgu ac fe'u defnyddir yn effeithiol wrth ddathlu gwaith disgyblion a darparu ystod dda o wybodaeth. Er gwaethaf gwelliannau diweddar i rai cyfleusterau addysgu arbenigol, mae angen rhoi sylw i addurn cyffredinol y llawr gwaelod.

Mae toiledau wedi cael eu hadnewyddu i safon dda. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfleusterau cawod.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ac mae'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen eu gwella.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr UCD weledigaeth glir i ddarparu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n helpu disgyblion i gyflawni o'u gorau. Caiff ei rhannu'n dda gyda staff, rhieni a disgyblion. Mae staff yn rhoi ystod o bolisïau a chynlluniau ar waith yn effeithiol i gefnogi cyfeiriad strategol y ganolfan.

O fewn y broses cynllunio strategol, ni roddwyd blaenoriaeth ddigon uchel i wella safonau pob disgybl a sicrhau bod yr holl addysgu yn yr UCD yn dda neu'n well. Mae hwn yn faes pwysig y mae angen ei wella'n sylweddol.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn mynychu'n anghyson ac yn rhoi cymorth a her foddhaol yn unig i staff yn yr UCD. Nid yw adroddiadau i'r pwyllgor rheoli yn rhoi llawer o ddadansoddiad o berfformiad yr UCD. O ganlyniad, nid yw aelodau'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gynnydd disgyblion na pherfformiad athrawon ac felly ni allant herio'r UCD ynglŷn â'i heffeithiolrwydd.

Mae rolau a chyfrifoldebau staff yn glir ac mae pennaeth yr UCD wedi dirprwyo cyfrifoldeb bugeiliol a chyfrifoldeb y cwricwlwm yn briodol i ddau bennaeth cynorthwyol.

Ceir system briodol ar gyfer rheoli perfformiad ac mae gan bob un o'r staff dargedau blynyddol. Mae pennaeth yr UCD yn herio achosion o berfformiad gwael yn gadarn.

Mae ffocws da a phriodol ar flaenoriaethau cenedlaethol fel gwella llythrennedd a rhifedd ac ehangu ystod y llwybrau dysgu. Mae pennaeth yr UCD wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd addawol i ymateb i'r rhain. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd eu heffaith.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cydnabod bod angen gwella presenoldeb yn yr UCD ac maent wedi rhoi blaenoriaeth i hyn gan lunio cynllun gweithredu clir.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Caiff trefniadau i wella ansawdd eu hymgorffori'n dda yng ngwaith yr UCD o ddydd i ddydd. Mae hunanarfarnu'n defnyddio ystod o dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth o'r system rheoli perfformiad ac arsylwadau gwersi. Mae staff yn gadarnhaol ynghylch adolygu eu perfformiad eu hunain. Mae'r UCD yn rhoi sylw da i safbwyntiau disgyblion, sy'n rhoi adborth rheolaidd ar y dysgu a gânt. Fodd bynnag, cyfyngedig yn unig yw rôl y pwyllgor rheoli mewn gweithgarwch hunanarfarnu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn onest ac arfarnol i raddau helaeth. Mae'r UCD yn ymwybodol o lawer o'i chryfderau a'i gwendidau. Fodd bynnag, mae'n rhy gadarnhaol wrth farnu ansawdd gwaith yr UCD. Yn ychwanegol, nid yw'r adroddiad bob amser yn canolbwyntio digon ar y deilliannau disgwyliedig ar gyfer disgyblion.

Mae systemau da ar waith i gynllunio ar gyfer gwella. Mae staff yn defnyddio'r adroddiad hunanarfarnu'n dda i nodi blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r rhain yn realistig a chânt eu cefnogi gan dargedau clir gyda deilliannau mesuradwy. Ceir system olrhain ddefnyddiol sy'n nodi pan fydd cam gweithredu wedi'i gwblhau. Mae staff yn cwblhau bron pob un o'r camau gweithredu yn brydlon.

Fodd bynnag, nid yw meysydd y mae angen eu gwella'n sylweddol yn yr UCD yn cael eu nodi'n glir yn yr adroddiad hunanarfarnu na'u blaenoriaethu'n ddigon da yn y cynllun datblygu. O ganlyniad, nid yw gweithgarwch gwella ansawdd yn canolbwyntio ar y meysydd cywir.

Gwnaed cynnydd da i fodloni'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol, er enghraifft trwy wella'r amgylchedd ffisegol a datblygu system effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg, yr heddlu a sefydliadau eraill. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynorthwyo'r disgyblion, y rhieni a'r gofalwyr yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gweithredol gydag ysgolion uwchradd prif ffrwd lleol. Mae contract a ddatblygwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod meini prawf wrth gychwyn ac wrth adael yn cael eu deall yn dda. Mae llinellau cyfathrebu clir rhwng yr UCD a'r ysgolion.

Mae olrheiniwr ymddygiad, a ddatblygwyd gan yr UCD, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gydag ysgolion sy'n cyfeirio ac mae'n cefnogi ailintegreiddio disgyblion. Yn ychwanegol, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu o'r UCD yn monitro cynnydd disgyblion yn agos pan fyddant yn dychwelyd i addysg prif ffrwd. Mae'r nodweddion hyn wedi cryfhau gallu Tŷ Gwyn i ddychwelyd disgyblion i ysgolion prif ffrwd.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion hŷn fynd ar leoliadau gwaith a choleg. Mae'r rhain yn helpu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith.

Mae cysylltiadau cymunedol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn elwa ar gael eu cynnwys mewn ystod o weithgareddau fel adfywio coetiroedd ac adnewyddu siop elusen leol. Mae'r gweithgareddau hyn yn meithrin profiad disgyblion o fyd gwaith ac yn eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer eu cyfnod ar ôl bod yn yr UCD.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae niferoedd priodol o staff i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae penodi arbenigwr pwnc mewn gwyddoniaeth yn ddiweddar wedi cryfhau'r tîm addysgu'n sylweddol.

Mae staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da i fodloni anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Fodd bynnag, mae rhai staff yn llai hyderus yn eu dealltwriaeth o sut i fodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae pennaeth yr UCD wedi cydnabod hyn ac wedi cynllunio rhaglen datblygu staff. Mae hyn yn cynnwys dau aelod o staff yn dilyn cymhwyster lefel uwch wrth fodloni anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu a rhaeadru'r hyfforddiant hwn ymhlith aelodau eraill o staff. Mae pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae system dda ar gyfer rheoli perfformiad ac fe gaiff athrawon arsylwadau gwersi rheolaidd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'r system werthuso.

Mae'r UCD yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn effeithiol ac yn eu cydweddu'n ofalus yn unol ag anghenion disgyblion unigol. Caiff cynorthwywyr addysgu eu cynnwys yn y trefniadau rheoli perfformiad.

Mae'r UCD yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i fonitro ac adolygu adnoddau yn briodol. O ganlyniad i'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r UCD yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 21 | 10 | 11 | 0 | 0 | Rwy’n teimlo’n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | |
| | | 54% | 42% | 2% | 2% | |
| The school deals well with any bullying | 21 | 11 | 8 | 2 | 0 | Mae’r ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 52% | 38% | 10% | 0% | |
| | | 50% | 40% | 7% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 21 | 10 | 10 | 0 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 48% | 48% | 0% | 5% | |
| | | 50% | 40% | 6% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 21 | 5 | 15 | 1 | 0 | Mae’r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 24% | 71% | 5% | 0% | |
| | | 34% | 52% | 8% | 5% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 21 | 14 | 7 | 0 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | |
| | | 36% | 45% | 15% | 4% | |
| I am doing well at school | 20 | 4 | 14 | 1 | 1 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 20% | 70% | 5% | 5% | |
| | | 43% | 45% | 8% | 4% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 21 | 12 | 9 | 0 | 0 | Mae’r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | |
| | | 57% | 39% | 2% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 21 | 2 | 12 | 3 | 4 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 10% | 57% | 14% | 19% | |
| | | 19% | 44% | 18% | 19% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | |
| | | 56% | 37% | 6% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 21 | 2 | 18 | 1 | 0 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy’n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 86% | 5% | 0% | |
| | | 24% | 53% | 19% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 21 | 13<br>62% | 8<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 57% | 34% | 6% | 3% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 21 | 9<br>43% | 10<br>48% | 2<br>10% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 36% | 52% | 10% | 3% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 20 | 9<br>45% | 11<br>55% | 0<br>0% | 0<br>0% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 44% | 51% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 21 | 8<br>38% | 12<br>57% | 1<br>5% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 2% | |
| The staff respect me and my background | 21 | 12<br>57% | 9<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 55% | 40% | 4% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 21 | 11<br>52% | 10<br>48% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 48% | 46% | 5% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 9 | 3<br>33% | 5<br>56% | 1<br>11% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 34% | 52% | 8% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 4 | 1<br>25% | 2<br>50% | 0<br>0% | 1<br>25% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 34% | 36% | 11% | 19% | |

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Roedd nifer yr ymatebion a gafwyd yn llai na 10. Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Jassa Scott | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Mary Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Claire Sourlis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Darren Williams | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg